# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 22 Tachwedd 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau ar Ddatblygu Economaidd i Brif Weinidog Cymru
Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

## Cwestiynau ar Ddatblygu Economaidd i Brif Weinidog Cymru

### Y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol

**C8 Glyn Davies:** Pryd y bydd Prif Weinidog Cymru yn cyfarfod nesaf â grŵp gweithgynhyrchu'r Canolbarth i drafod y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol? (OAQ14143)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Fel rhan o broses ymgynghori 'Cymru ar ei Hennill', gwahoddir grŵp gweithgynhyrchu'r Canolbarth i gyflwyno ei sylwadau ar y drafft erbyn 28 Tachwedd. Caiff ei sylwadau eu hystyried ar y cyd â'r sylwadau eraill gan y sawl yr ymgynghorwyd â hwy cyn cyhoeddi'r strategaeth derfynol fis Rhagfyr. Ni ragwelir y bydd trafodaeth ar wahân â'r grŵp cyn cyflwyno'r strategaeth.

### Cymorth Mentrau (Haen 3)

**C9 Eleanor Burnham:** Pryd y bydd casgliadau'r grŵp gorchwyl a gorffen ar gymorth mentrau (haen 3) yn cael eu cyhoeddi a phryd y byddant yn cael eu gweithredu? (OAQ14151)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae adroddiad y grŵp wedi dod i law. Byddaf yn ei gyflwyno, ar y cyd â chynllun gweithredu, gerbron cyfarfod Pwyllgor Datblygu Economaidd cyn hir.

### Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain Cymru

**C10 Phil Williams:** Pryd oedd y tro diwethaf i Prif Weinidog Cymru gwrdd â Chyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain Cymru i drafod y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol? (OAQ14129)

**Prif Weinidog Cymru:** Gwnaeth fy swyddogion a mi gyfarfod â'r cyd-ffederasiwn sawl gwaith wrth ddatblygu 'Cymru ar ei Hennill'. Cyfarfûm â'r cyd-ffederasiwn ddoe fel rhan o grŵp gorchwyl a gorffen y strategaeth a byddaf yn cyfarfod ag ef eto yfory yng nghyfarfod y Cyngor Partneriaeth Busnes.

### Cymorth Mentrau (Haen 3)

**C11 Mick Bates:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ba bryd y bydd canlyniadau'r grŵp gorchwyl a gorffen ar gymorth mentrau (haen 3) yn cael eu cyhoeddi a phryd y byddant yn cael eu gweithredu? (OAQ14152)

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb heddiw i gwestiwn Eleanor Burnham (OAQ14151).

### Cyflogaeth yn Ardal Canol De Cymru

**C12 Owen John Thomas:** Faint o swyddi gafodd eu creu a'u colli yn y sector gweithgynhyrchu yn ardal Canol De Cymru yn ystod y flwyddyn hyd at ddiwedd Medi 2001? (OAQ14101) [W]

**Prif Weinidog Cymru:** Dengys data’r gofrestr Gymreig o gyflogaeth weithgynhyrchu yr enillwyd 1,700 swydd a chollwyd 4,000 swydd yn etholaeth Canol De Cymru yn y flwyddyn hyd at fis Hydref. Cyflogir tua 39,600 o bobl yn y diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghanol De Cymru, sy’n cynrychioli ychydig yn llai na 20 y cant o gyfanswm Cymru.

**Cyllid Cymru**

**C13 Alun Pugh:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar lansio Cyllid Cymru? (OAQ14161)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr oeddwn yn falch iawn ar 5 Tachwedd o gyhoeddi cronfeydd Amcan 1 newydd mewn trawiad deublyg dros Gymru gwerth £45 miliwn. Darparwyd y gefnogaeth ddigynsail hon i waith Cyllid Cymru gan yr UE a banc Barclays, ac fe fydd o gymorth mawr yn y gwaith sy’n mynd rhagddo i ddatblygu economi Cymru ac adnewyddu’r ardaloedd Amcan 1 yn benodol. Bydd hyn yn ategol i’r £35 miliwn sydd ar gael i Gyllid Cymru ar hyn o bryd.

Ers i Gyllid Cymru ddechrau ar ei waith y llynedd, mae ei gynhyrchion a’i wasanaethau eisoes wedi cynorthwyo mwy na 300 o fusnesau ac wedi creu neu ddiogelu bron 1,900 o swyddi.

Yn y pum mlynedd nesaf, o ganlyniad i’r arian ychwanegol sylweddol hwn, bwriedir cynyddu y targedau gan anelu at gynorthwyo 4,000 o gwmnïau bychain i dyfu a chreu 10,000 o swyddi newydd.

**Busnesau Tramor**

**C14 Brian Gibbons:** Pa gyfran o’r busnesau tramor a sefydlwyd yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf, ac a gafodd fuddsoddiad uniongyrchol, sydd wedi goroesi? (OAQ14095)

**Prif Weinidog Cymru:** Dengys cofrestr Cymru o weithgynhyrchu i 23 o weithfeydd gweithgynhyrchu gael eu sefydlu gan gwmnïau tramor yng Nghymru rhwng Tachwedd 1996 a Thachwedd 2001. O’r rhain, cafwyd tri eu cau, sy’n golygu bod rhyw 87 y cant wedi goroesi. Mae’r ffigurau hyn yn cwmpasu dim ond y busnesau tramor sydd wedi buddsoddi yn uniongyrchol ac sy’n ymwneud â gweithgynhyrchu.

**Rhaglen Amcan 1 yng Nghymru**

**C15 Helen Mary Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar strwythurau gweithredu rhaglen Amcan 1 yng Nghymru? (OAQ14130)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae’r strwythurau sydd wedi’u gweithredu gydag ystod o bartneriaid yn y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yn darparu ymagwedd effeithiol ac integredig o gefnogi prosiectau o dan Amcan 1. Mae partneriaethau’n rhoi cefnogaeth a chyngor i ddarpar ymgeiswyr ac mae’r broses yn fwy tryloyw na phob rhaglen flaenorol.

**Cwestiynau ar Gyllid i’r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

**Prosiectau Mentrau Cyllid Preifat a Phrosiectau Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat**

**C10 Alun Cairns:** Pryd fydd awdurdodau lleol Cymru yn medru cyflwyno ceisiadau i ymgymryd â phrosiectau mentrau cyllid preifat a phrosiectau partneriaeth cyhoeddus-preifat? (OAQ14141) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Yn yr wythnosau nesaf fe wnaf ddatganiad am ganlyniadau’r ymgynghori a wneuthum ynghylch datblygu partneriaethau cyhoeddus-preifat a mentrau cyllid preifat yng Nghymru.

**Adeilad Newydd y Cynulliad**

**C15 Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas ag adeilad newydd y Cynulliad? (OAQ14112) [W]

**Edwina Hart:** Yr wyf yn falch iawn o fedru dweud bod nifer sylweddol o gwmnïau dibynadwy wedi datgan diddordeb mewn cwblhau'r prosiect. Nid yw'n bosibl i mi gyhoeddi enwau a nifer yr ymatebwyr oherwydd y gallai hynny weithredu yn erbyn buddiannau masnachol y Cynulliad. Mae hyn yn unol â gweithdrefnau caffael arferol y Cynulliad.